Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Enfys Fach Cyf**

**Madoc Surgery**
**High Street**
**Porthmadog**
**LL49 9HD**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

22/07/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn âMeithrinfa Enfys Fach Cyf

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarpeir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Meithrinfa Enfys Fach Cyf |
| Lleoedd cofrestredig | 35 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Yndi |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hybu'r iaith Gymraeg a'i diwylliant? | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu yn y lleoliad. Maent yn gwneud dewisiadau am sut i dreulio'u hamser ac yn teimlo'n ddiogel a hyderus gan eu bod wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff a'u ffrindiau. Mae'r plant yn mwynhau'r gweithgareddau sydd ar gael iddynt, ac maent yn dysgu sgiliau cymdeithasol cadarnhaol drwy gymryd rhan yn y gweithgareddau yma gyda'u ffrindiau.

Mae gan y staff ddealltwriaeth addas o'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn siarad gyda nhw mewn ffordd gynnes a chyfeillgar. Mae'r staff yn cynllunio amrywiaeth o brofiadau chwarae diddorol i'r plant er mwyn eu helpu i ddatblygu sgiliau cymdeithasol cadarnhaol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod pob ardal a ddefnyddir gan y plant yn ddiogel ac yn groesawgar. Mae'r teganau a'r adnoddau o ansawdd da ac yn cynnig digon o gyfleoedd i'r plant ddysgu a meithrin eu sgiliau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn deall eu cyfrifoldebau ar y cyfan, ac yn ymdrechu i ddarparu gwasanaeth o safon i'r plant a'u rhieni. Fodd bynnag maent angen gwneud rhai gwelliannau gan nad yw'r Rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn cael eu cwrdd bob amser.

.

## Llesiant — Da

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu yn y lleoliad. Maent yn hyderus i wneud penderfyniadau am sut i dreulio eu hamser a maent yn symud yn rhwydd o gwmpas y gweithgareddau gan ddilyn eu diddordebau. Mae'r plant yn awyddus ac yn hyderus i rannu eu syniadau, ateb cwestiynau a sgwrsio â'r staff, gan wybod y byddant yn gwerthfawrogi'r hyn sydd ganddynt i'w ddweud. Er enghraifft, roedd y plant yn hyderus i ddweud eu bod eisiau gwneud cacen, ac mewn ymateb i hyn aeth y staff ynghyd â'r plant hynaf i'r siop i brynu cynhwysion er mwyn iddynt gael coginio yn y prynhawn.

Mae'r plant yn teimlo'n saff gan eu bod wedi creu perthnasau clos gyda'r staff sydd yn gofalu amdanynt. Maent yn teimlo'n gyfforddus gofyn i staff am gysur pan mae angen. Er enghraifft, drwy fynd at y staff i gael cysur os oeddent wedi blino. Mae'r plant yn hyderus pan yn siarad gydag oedolion eraill sydd yn ymweld â'r lleoliad. Maent yn sgwrsio ac yn gwneud ffrindiau yn ystod amser cinio, amser chwarae ac yn ystod gweithgareddau ac yn gwenu a chwerthin wrth wneud hynny.

Mae'r plant yn gyfeillgar ac yn rhyngweithio'n bositif gyda'r staff a gyda'i gilydd. Maent yn rhannu teganau, yn aros eu tro, ac yn cydweithio'n dda i gwblhau tasgau. Er enghraifft pan yn chwarae gêm gardiau roeddynt yn gwrando yn astud ar yr aelod staff oedd yn rhoi cyfarwyddiadau, yn amyneddgar wrth ddisgwyl eu tro i osod eu cerdyn lawr, ac yn cymryd diddordeb brwdfrydig pan oedd eu ffrindiau yn gwneud yr un peth. Mae'r plant yn dilyn rheolau'r lleoliad, yn gwybod sut i ymddwyn, ac yn cychwyn dod i ddeall am anghenion eraill. Er enghraifft pan oedd y plant ieuengaf yn deffro ar ôl cysgu, roedd y plant hŷn yn deall fod angen rhoi cyfle iddynt ddeffro'n iawn cyn dechrau chwarae. Roeddynt yn annwyl iawn gyda'r plant ieuengaf, yn siarad yn dawel ac estyn teganau iddynt.

Gall y plant ddewis o ystod eang o weithgareddau ac maent yn mwynhau dysgu a chwarae. Maent yn dewis chwarae ar ben eu hunain neu gyda phlant eraill. Er enghraifft ar ôl cael stori am y tri mochyn bach a'r blaidd, cafodd grŵp o ffrindiau lawer o hwyl yn chwarae gêm ddychmygol lle roeddynt yn adeiladu tŷ, ac yna yn cuddio rhag y blaidd. Dewisodd un plentyn chwarae gyda'r gegin bren, a chwarae rôl o fod mewn caffi. Roedd yn ymfalchïo wrth weini bwyd ar blatiau a'u rhannu gyda'r staff a'i ffrindiau.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd cyffrous i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth drwy gwblhau tasgau drostynt eu hunain. Er enghraifft, mae plant yn cael eu hannog i wisgo eu cotiau yn annibynnol, ac yn gwybod sut i ddefnyddio'r ffynnon ddŵr i helpu eu hunain i ddiod yn ystod y dydd. Mae'r plant yn hyderus i ddewis pa weithgareddau maent eisiau cymryd rhan ynddynt ac yn dewis gwahanol adnoddau fel y maent yn ddymuno.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae staff yn hyderus ynglŷn a'u dyletswyddau i ddiogelu plant, ac maent wedi derbyn hyfforddiant diogelu priodol. Roedd y staff y gwnaethom eu holi yn hyderus ynglŷn â'r camau priodol i'w dilyn pe byddai ganddynt bryder am blentyn. Mae staff yn sicrhau bod plant yn gallu gadael yr adeilad ar frys gan eu bod yn cwblhau driliau tân rheolaidd. Mae cofnodion manwl yn cael eu cadw o'r ymarferion hyn. Mae'r mwyafrif o staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig. Cofnodir unrhyw ddamweiniau ar ffurflenni pwrpasol, gan nodi'r amgylchiadau, unrhyw anaf, a'r camau gymerwyd yn dilyn y ddamwain. Mae'r cofnodion hyn wedi eu harwyddo gan staff a rhieni.

Mae staff yn dilyn gweithdrefnau effeithiol er mwyn atal lledaenu haint. Maent yn annog y plant i olchi eu dwylo yn ôl yr angen. Darperir prydau a byr bydau iach i'r plant, ac mae systemau effeithiol mewn lle er mwyn sicrhau bod staff yn ymwybodol o anghenion dietegol y plant ac yn gallu darparu byrbrydau a phrydau addas iddynt. Mae staff yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd rheolaidd i dreulio amser yn yr awyr agored, gan sicrhau eu bod yn datblygu eu sgiliau corfforol.

Mae staff wedi ffurfio perthynas gadarnhaol gyda'r plant ac maent yn siarad gyda nhw yn annwyl a'u trin gyda gofal a pharch. Maent yn defnyddio strategaethau effeithiol a chyson i hybu ymddygiad cadarnhaol yn unol â pholisi'r lleoliad. Er enghraifft, maent yn denu sylw plant at weithgaredd gwahanol os ydynt yn cael trafferthion wrth rannu neu gymryd tro ac yn cynnig esboniad clir pan nad yw eu hymddygiad yn dderbyniol. Mae staff hefyd yn modelu sgiliau cymdeithasol yn effeithiol.

Mae staff yn darparu amrywiaeth o weithgareddau sydd o ddiddordeb i'r plant. Maent yn adnabod eu hoffterau unigol ac yn cynnig cymysgedd dda o weithgareddau dan do ac yn yr awyr agored. Mae gan y lleoliad drefniadau pwrpasol er mwyn adnabod a chefnogi anghenion unigol plant, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn casglu digon o wybodaeth am hoffterau, anghenion ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall cyn i'r plant gychwyn yn y lleoliad. Mae hyn yn galluogi'r staff i gynllunio'n effeithiol ar gyfer anghenion unigol y plant.

## Yr Amgylchedd Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn blaenoriaethu diogelwch y plant ac yn sicrhau bod y staff yn dilyn gweithdrefnau i gadw'r plant yn ddiogel. Er enghraifft, mae'r staff yn gofyn i ymwelwyr lofnodi'r llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd ac maent yn sicrhau bod yr adeilad a'r ardaloedd awyr agored yn ddiogel. Mae hyn yn sicrhau na all unigolion heb awdurdod ddod i mewn i'r safle. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad asesiadau risg ysgrifenedig cynhwysfawr ar waith. Mae'r rhain yn amlinellu unrhyw beryglon posibl i ddiogelwch y plant a'r camau a gymerwyd i reoli neu ddileu'r peryglon hyn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod pob ardal a ddefnyddir gan y plant yn groesawgar ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda . Mae'r staff a'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y gofod yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac yn darparu ystafelloedd penodedig i blant ar gyfer gwahanol weithgareddau. Er enghraifft ystafell ddistaw ar gyfer cysgu, ystafell i newid clytiau ac ystafell bwrpasol ar gyfer chwarae synhwyraidd. Mae'r staff a'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi creu ardal chwarae allanol sy'n cynnig amrywiaeth addas o gyfleoedd i'r plant ddatblygu eu sgiliau corfforol, gan gynnwys beics, peli, si-so, a cornel blannu. Caiff teganau ac adnoddau yn yr ardaloedd chwarae tu fewn eu storio ar lefel isel wedi eu trefnu'n dda mewn bocsys sy'n galluogi'r plant wneud dewisiadau eu hunain. Mae'r staff yn sicrhau bod adnoddau yn cael eu cylchdroi yn rheolaidd er mwyn cadw diddordeb y plant. Mae cyfleusterau addas yn y toiledau, gyda sinciau a thoiledau lefel isel sy'n hybu annibyniaeth y plant yn dda.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amrywiaeth dda o deganau ac adnoddau sydd yn addas ar gyfer oedrannau a chamau datblygu'r plant. Maent yn lân ac mewn cyflwr da. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod cyfleoedd i'r plant archwilio deunyddiau naturiol a deunyddiau wedi eu hailgylchu. Mae nifer fawr o'r teganau wedi eu gwneud o bren. Mae amrywiaeth dda o ddeunyddiau wedi eu hailgylchu ac mae'r gornel sydd yn cynnwys gwrthrychau bywyd go iawn yn boblogaidd gyda'r plant.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Digonol

Mae'r bobl sydd yn rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau gofynnol mewn lle, ac mae’r rhain yn cynnwys y wybodaeth berthnasol. Mae datganiad o ddiben y lleoliad yn cynnwys gwybodaeth fanwl ac yn cynnig disgrifiad cywir o'r gwasanaeth a gynigir. Mae’r bobl sydd yn rhedeg y lleoliad yn ymdrechu i ddarparu gwasanaeth o safon i’r plant a’u rhieni. Mae holl ddogfennau a gweithdrefnau’r gwasanaeth ar gael yn y Gymraeg, ac mae’r lleoliad yn darparu Cynnig Gweithredol yr Iaith Gymraeg.

Fodd bynnag nid yw’r bobl sy’n rhedeg y lleoliad wedi hysbysu Arolygaeth Gofal Cymru (AGC) am newidiadau i’r gwasanaeth fel sydd yn ofynnol . Mae hyn wedi ei gofnodi'n faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad gymryd camau gweithredu prydlon.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn awyddus i sicrhau eu bod yn parhau i ddatblygu a gwella’r ddarpariaeth. Maent yn y broses o ddatblygu system addas ar gyfer hunan arfarnu. Mae’r bobl sy’n rhedeg y lleoliad wedi cychwyn ar y yn y broses o gasglu adborth gan rieni a phlant i gwblhau adolygiad o ansawdd y gofal. Maent yn gwneud hyn drwy ddefnyddio amrywiaeth o wahanol ddulliau fel holiaduron, arsylwadau ac adborth lafar er mwyn cwblhau’r adolygiad hwn.

Mae angen i'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad sicrhau bod digon o staff yn bresennol bob amser i oruchwylio’r plant yn briodol a bod y staff yn gallu cwblhau tasgau cyffredinol yn effeithiol. Nid oedd hyn yn digwydd bob amser yn ystod yr ymweliad arolygu. Er enghraifft, roedd cyfnod mewn un ystafell pan oedd aelod o staff angen gadael yr ystafell i gwblhau tasg. Gadawodd hyn 1 aelod o staff ar ôl i ofalu am 5 o blant o dan 3, ac roedd yn anodd iawn i’r aelod o staff gynnwys y plant i gyd mewn gweithgareddau yn ystod y cyfnod hwn. Mae angen i’r bobl sy’n rhedeg y lleoliad sicrhau bod staff arweiniol pob ystafell gyda chymwysterau priodol. Roedd cyfnod yn ystod yr ymweliad pan oedd aelodau o staff o dan hyfforddiant yn gyfrifol am arwain ystafell. Fodd bynnag ni welwyd effaith negyddol ar y gofal oedd y plant yn ei dderbyn yn sgil hyn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant a chymorth i gyflawni eu rolau yn effeithiol. Mae ffeiliau'r staff yn gynhwysfawr ac yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol, gan ddangos bod gwiriadau recriwtio diogel ar waith. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu cefnogi gan y bobl sy’n rhedeg y gwasanaeth, a’u bod yn teimlo’n gyfforddus mynd atynt gyda chwestiwn neu i drafod unrhyw broblemau. Gwelsom gofnodion ysgrifenedig oedd yn dangos bod cyfarfodydd goruchwylio unigol yn digwydd yn rheolaidd ac mae cynlluniau ar y gweill i gwblhau arfarniadau blynyddol.

Mae’r staff yn cyfathrebu’n effeithiol a chyson gyda rhieni. Maent yn defnyddio ap i ddogfennu cyflawniadau'r plant ac i rannu gwybodaeth â'r rhieni megis lluniau ac arsylwadau, yn ogystal â gwybodaeth am eu gofal personol. Dywedodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hapus iawn gyda’r ffordd mae’r gwasanaeth yn

cyfathrebu a’u diweddaru ynglŷn â’u plentyn. Roeddynt yn dweud bod ganddynt berthynas dda gyda’r staff a’u bod yn hynod fodlon gyda’r gofal mae eu plentyn yn ei dderbyn. Mae’r bobl sydd yn rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd i ddysgu am y gymuned y maent yn byw ynddi drwy dreulio llawer o amser yn ymweld ag ardaloedd lleol, er enghraifft siopa’n lleol, mynd i’r traeth, ac ymweliad yn y goedwig.

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella / Meysydd I’w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 31 | Nid yw’r bobl sy’n rhedeg y lleoliad wedi hysbysu Arolygaeth Gofal Cymru (AGC) am newdiadau staffio fel sydd yn ofynnol. | Newydd |

Lle byddwn yn nodi nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Argymhellion ar gyfer Cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad (argymhellion) |
| Standard 13 (Day Care) - Suitable Person | Sicrhau bod pawb sydd dan hyfforddiant yn gweithio dan oruchwyliaeth agos bob amser. |
| Standard 15 - Staffing ratios | Sicrhau y cydymffurfir â'r cymarebau staffio priodol bob amser fel bod y staff yn gallu cyflawni eu dyletswyddau a goruchwylio'r plant yn effeithiol. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 30/09/2024